Braf y tro yma eto yw cael croesawu tri phlentyn newydd i'r ysgol. Y mae Daniel Fletcher o Gartref, Penrhiwnewydd yn hapus ddigon yn ein mysg, ac mae Danny Berner a ddaeth atom o ysgol Mynach wedi cartrefu'n dda iawn yma. O Faenceinion y daeth Malcolm Platt, Gwar-ffin, Penrhiwnewydd, ac mae yntau wrth ei fodd gennym. Croeso cynnes i'r tri.

Talodd tim pêl-droed ysgol Capel Seion ymweliad â ni ar ôl ysgol un diwrnod a chafwyd gêm ddiddorol dros ben rhyngddynt a thim y Penrhyn. Y rheolwr oedd Mr Arthur Thomas ac, fel arfer, gwnaeth ei waith gyda graen.

Y nos Wener gyntaf yn Mai roedd Noson Agored yr ysgol. Da oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Profodd y noson yn un fendithiol iawn.

Hyfryd yw clywed am lwyddiant nifer o'r plant ym myd cerddoriaeth. Ein llongyfarchion i chwi i gyd. Bu rhai o'r disgyblion yn cystadlu'n Eisteddfod y Penrhyn a llongyfarchwn Meriel Ralphs ar ei llwyddiant, mae Kay Smith a Helen Sutherland wedi derbyn gwahoddiad eleni eto i fod yn aelodau yng Ngherddorfa Ceredigion a byddant yn perfformio gyda hyn mewn cyngerdd yn Aberaeron. Y maent eisoes yn aelodau o Gerddorfa Aberystwyth a'r cylch.

Yn olaf ond nid lleiaf a gawn ni ddiolch i Dr a Mrs David Jenkins, Maesaleg am eu rhodd hael i'r ysgol. Llawer o ddiolch i chwi